

Diweddariad polisi'r UE (EU2013.03):

Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Diweddariad: Mehefin 2013

Crynodeb o'r prif bwyntiau yn y cynigion

Cyflwyniad

Ar 12 Hydref 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei becyn o gynigion deddfwriaethol ar gyfer **diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**.

Y Pecyn Deddfwriaethol

Mae'r pecyn deddfwriaethol yn cynnwys saith rheoliad, ac mae pedwar ohonynt yn arbennig yn berthnasol i Gymru.

- Y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol: **COM(2011)625**
- Y Rheoliad Datblygu Gwledig: **COM(2011)627**
- Ariannu, Rheoli a Monitro'r PAC ("y Rheoliad Llorweddol"): **COM(2011)628**
- Rheoliad Trefniadaeth y Farchnad Gyffredin: **COM(2011)626**

Ar ben hynny, daw'r offeryn ariannu yng nghyswllt Datblygu Gwledig (EAFRD) o dan fframwaith y **Rheoliad Darpariaethau Cyffredin** newydd, a gyhoeddwyd ar 6 Hydref 2012 fel rhan o'r pecyn o gynigion deddfwriaethol ar gyfer Polisi Cydlyniant yr UE (Cronfeydd Strwythurol yr UE) rhwng 2014 a 2020¹.

¹ Gweler **Diweddariad Polisi'r UE (EU2011.04)**

Mesurau Trosiannol

Ar y cychwyn, y gobaith oedd y byddai'r pecyn i ddiwygio'r PAC yn cael ei dderbyn mewn digon o amser fel y gallai'r Aelod-wladwriaethau roi rheoliadau 'newydd' y PAC ar waith o fis Ionawr 2014, ond bellach mae'n annhebygol y bydd hyn yn digwydd. Felly, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi cynigion ynghylch mesurau trosiannol ar gyfer 2014.² Byddai rheoliadau 'newydd' y PAC mewn grym o 1 Ionawr 2015.³

Cynigion y Comisiwn ynghylch Rheoliad Taliadau Uniongyrchol

- **Y Taliad Sylfaenol:** Byddai'r Taliad Sylfaenol yn cymryd lle'r Taliad Sengl. Byddai'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sy'n dyrannu'r taliadau fferm ar sail hanesyddol ar hyn o bryd symud tuag at ddsobarthu ar sail arwynebedd erbyn 2019. Byddai'n rhaid talu o leiaf 40 y cant o'r Taliad Sylfaenol ar sail arwynebedd yn y flwyddyn gyntaf.
- **Dyrannu Taliadau:** Byddai hawliau i daliadau yn cael eu dyrannu ar y sail bod ffermwyr wedi ysgogi o leiaf un taliad yn 2011.
- Byddai'n rhaid i 30% neu fwy o'r terfynau cenedlaethol uchaf a ddefnyddir yng nghyswllt taliadau uniongyrchol ymwneud â **thaliadau gwyrdd**. Byddai'n rhaid i bob ffermwr, ac eithrio ffermwyr organig, ymgymryd â thri dewis gwyrdd ar eu tir i'r graddau y maent yn berthnasol, sef:
 - **Arallgyfeirio o ran cnydau**
 - Cynnal **glaswelltir parhaol**
 - Sefydlu **ardaloedd ecolegol** ar fferm.

² **COM(2013) 226**

³ Mae'n bwysig nodi y bydd angen i sefydliadau'r UE ddod i gytundeb ar y rheoliadau hyn yn ychwanegol at y prif gynigion ynghylch diwygio'r PAC.

- **Y Cynllun Ffermwyr Ifanc:** Byddai'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddarparu taliad atodol i ffermwyr ifanc. Y diffiniad o ffermwyr ifanc yw'r rhai sy'n sefydlu eiddo amaethyddol am y tro cyntaf neu o fewn pum mlynedd i gyflwyno cais am y Taliad Sylfaenol. Rhaid i Ffermwyr Ifanc fod yn iau na 40 mlwydd oed.
- **Y Cynllun Ffermwyr Bach:** Byddai'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau sefydlu cynllun ffermwyr bach. Byddai ffermwyr yn gallu penderfynu a fyddent yn dymuno bod yn rhan o'r cynllun. Yn ôl telerau'r cynllun, €500 fyddai'r isafswm y byddai modd i ffermwr ei gael, a €1000 fyddai'r uchafswm. Ni fyddai ffermwyr sy'n rhan o'r cynllun yn destun mesurau trawsgydymffurfio na mesurau gwyrdd.
- **Ffermwyr Actif:** I fynd i'r afael a'r broblem o 'ffermwyr soffâ', byddai'n rhaid i bawb sy'n cael y Taliad Sylfaenol gyd-fynd â'r diffiniad o ffermwr actif. Mae diffiniad y Comisiwn yn cynnig y byddai ffermwyr actif yn cael eu diffinio yn ôl y ganran o'u hincwm sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol.
- Byddai taliadau uniongyrchol rhwng €150,000 a €300,000 yn destun **terfynau uchaf cynyddol**, ac ni fyddai unrhyw fusnes yn cael mwy na'r terfyn uchaf hwn. Byddai Busnesau Fferm yn cael gwneud didyniadau yng nghyswllt cyflogau (gan gynnwys trethi a chyfraniadau cymdeithasol).
- **Dosbarthu cyllid yn decach rhwng Aelod-wladwriaethau:** mae'r Comisiwn wedi cynnig cynyddu'r dyraniad i Aelod-wladwriaethau newydd a mynd i'r afael â thuedd dyraniadau hanesyddol y PAC rhwng Aelod-wladwriaethau.
- **Hyblygrwydd rhwng colofnau:** Mae'r Comisiwn yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau drosglwyddo hyd at **10% o'u cyllid o Golofn 1 i Golofn 2** a hyd at **5% o gyllid Colofn 2 i Golofn 1** yn achos gwledydd sy'n cael llai na 90% o ddyraniad cyfartalog yr UE i Golofn 1 (mae'r DU yn y dosbarth hwn).

Y Rheoliad Datblygu Gwledig

Bydd gwaith ym maes Datblygu Gwledig yn canolbwyntio ar **chwe blaenoriaeth** sy'n cyd-fynd â strategaeth Ewrop 2020, gan gwmpasu gwybodaeth ac arloesedd, cystadleurwydd ardaloedd gwledig, datblygu prosesau rheoli risg a'r gadwyn fwyd, diogelu ecosystemau, effeithlonrwydd adnoddau, a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol, tlodi a datblygu economaidd.

Gall Aelod-wladwriaethau ddewis o restr o fesurau i gyflawni'r blaenoriaethau hyn a chael mwy o ryddid nag a geir yn y Polisi Datblygu Gwledig presennol i benderfynu sut i rannu eu cyllid rhwng y mesurau.

- **Dyrannu Cyllideb y Polisi Datblygu Gwledig:** Bydd y Gyllideb yn cael ei dyrannu rhwng Aelod-wladwriaethau ar sail perfformiad yn y gorffennol a meini prawf gwrthrychol.

Y Rheoliad Llorweddol

Rhoddyd **mesurau trawsgydymffurfio** mewn rheoliad llorweddol ar gyllid a monitro oherwydd y byddant yn berthnasol i holl gronfeydd y PAC am y tro cyntaf, ac nid i daliadau uniongyrchol yn unig. Gostyngwyd nifer y **Gofynion Rheoli Statudol** i 13, a nifer y **Cyflyrau Amaethyddol ag Amgylcheddol Da** i wyth. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol i ffermwyr gydymffurfio hefyd â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Blaladdwyr ar ôl i ymrwymadau ffermwyr ddod i rym. Mae'r manylion ynghylch gofynion trawsgydymffurfio wedi'u hamlinellu yn Atodiad II i'r rheoliad hwn. Byddai unrhyw ffermwr sy'n methu â chyflawni gofynion y mesurau gwyrdd yng Ngholofn 1 yn cael ei gosbi ar sail ei daliadau uniongyrchol i gyd. Mae hyn, i bob pwrpas, yn peri bod yr elfen werdd yn orfodol.

Rheoliad Trefniadaeth y Farchnad Gyffredin

Mae'r rheoliad hwn yn pennu'r rheolau yng nghyswllt **trefniadaeth gyffredin marchnadoedd amaethyddol**. Mae'r rheoliad yn amlinellu'r rheolau sy'n ymwneud â chymorth storio, chymorth o ran storio preifat, safonau marchnata, enwau tarddiad a dangosyddion daearyddol.

Mae'r rheoliad yn ymgorffori'r cynigion deddfwriaethol a gynigiwyd fel rhan o **becyn llaeth** y Comisiwn, sy'n anelu at gryfhau sefyllfa cynhyrchwyr llaeth wrth drafod telerau.

Hefyd, mae'r rheoliad yn ehangu rheolau sy'n ymwneud â **chydnabod Sefydliadau Cynhyrchwyr** a sefydliadau cydadannol i gwmpasu pob sector. Ymgais yw hon i wella sefyllfa ffermwyr wrth drafod telerau.

Dyraniad ariannol i'r PAC

Ar 8 Chwefror 2013, daeth Cyngor y Gweinidogion i gytundeb ar Fframwaith Ariannol Amlflwydd yr UE ar ôl 2013.⁴ Byddai'r cynigion yn rhoi cyllideb o **€417 biliwn** i'r PAC, a byddai **€319 biliwn** yn cael ei wario ar daliadau uniongyrchol a mesurau'r farchnad, a **€98 biliwn ar ddatblygu gwledig**.

Pleidleisiodd Senedd Ewrop o blaid penderfyniad ar 13 Mawrth 2013 i wrthod cynigion y Cyngor ynghylch y Fframwaith Ariannol Amlflwydd.⁵ Mae anghytundeb rhwng y Senedd a'r Cyngor o ran sut i ymdrin â'r diffyg yng nghyllideb 2013 hefyd wedi arwain at oedi yn y trafodaethau rhwng y ddau sefydliad ar y Fframwaith. Mae rhai rhanddeiliaid wedi datgan efallai y gallai hyn olygu na fydd cytundeb terfynol ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd tan yr hydref yn 2013, ond maent o'r farn na ddylai hyn rwystro'n sylweddol y trafodaethau parhaus ynghylch diwygio'r PAC.⁶ Hyd yn oed os na lofnodir cytundeb terfynol tan yr hydref, mae Llywyddiaeth Iwerddon o'r Cyngor yn gobeithio dod i gytundeb gwleidyddol ar y Fframwaith Ariannol Amlflwydd erbyn diwedd mis Mehefin 2013.

⁴ EUCO 37/13

⁵ Penderfyniad Senedd yr UE B7-0129/2013

⁶ AGRAFACTS Rhif.36-13

Yr amserlen a'r broses

Dechreuodd trafodaethau tairochrog rhwng y Cyngor, y Senedd a'r Comisiwn ar 11 Ebrill 2013. Y gobaith yw y bydd modd dod i gytundeb ar gynnwys y pedwar testun deddfwriaethol erbyn diwedd Llywyddiaeth Iwerddon o'r Cyngor ym mis Mehefin 2013.

Mesurau Trosiannol

Fel y nodwyd yn flaenorol, ni fydd yr Aelod-wladwriaethau mewn sefyllfa i roi'r rheolau newydd ar waith o fis Ionawr 2014. Felly, bydd mesurau trosiannol yn cael eu cyflwyno am 12 mis cyn i reoliadau'r PAC gychwyn ym mis Ionawr 2015.

Cefndir y cynnig

Y cyd-destun: argyfyngau a materion diogelwch

Mae'r drafodaeth hon wedi cael ei chynnal yng nghyddestun yr argyfwng ariannol, yr argyfwng yn ardal yr ewro, argyfwng diogelwch bwyd yn ystod 2009 (yn arbennig), pryderon cynyddol o ran diogelwch ynni, mewnfudo, yn ogystal â'r sylw arbennig a roddir i'r newid yn yr hinsawdd a newid demograffig.

Mae Strategaeth Ewrop 2020 (sy'n canolbwyntio ar Ddw Deallus, Cynaliadwy ac Arloesol) a Llywodraethu Economaidd cryfach yn darparu'r fframwaith strategol i waith y Comisiwn o geisio moderneiddio'r gyllideb, i fynd i'r afael â'r heriau y mae Ewrop yn eu hwynebu, ac mae Comisiynydd Amaethyddiaeth yr UE wedi ceisio ailsefydlu'r PAC fel elfen allweddol yng nghyllideb yr UE o ran cyflawni amcanion Ewrop 2020.

Perthnasedd i Gymru

Ar hyn o bryd, mae Cymru yn elwa ar tua **€3 biliwn** o'r PAC:

- mae tua **€370 miliwn y flwyddyn** yn mynd i ffermwyr ar ffurf taliadau sengl o dan Golofn 1 y PAC
- mae tua **€340 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013** o dan Golofn 2 y PAC ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

Safbwynt Llywodraeth y DU

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Femoranda Esboniadol ar wahanol elfennau cynigion y Comisiwn ar 29 Hydref 2012. Yn y Memorandwm ynghylch taliadau uniongyrchol, mae Llywodraeth y DU yn datgan ei bod am weld lleihad yng nghyllideb taliadau uniongyrchol Colofn 1 dros amser, a swm cynyddol yn y gyllideb yn cael ei ddarparu drwy gynlluniau Colofn 2.⁷

O ran taliadau uniongyrchol, mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi galwadau'r gweinyddiaethau datganoledig am drosglwyddo'n fwy graddol o daliadau hanesyddol i rai sy'n seiliedig ar arwynebedd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi'r farn y dylai ffermwyr sydd eisoes yn rhan o gynlluniau amaeth-amgylcheddol gael y taliad gwyrdd yn awtomatig os ydynt yn creu mwy o fudd amgylcheddol na'r mesurau gwyrdd arfaethedig. Fodd bynnag, mae wedi gwrthwynebu'n gadarn gynigion gan rai Aelod-wladwriaethau i ganiatáu i ffermwyr gael taliad ddwywaith am fesurau gwyrdd o dan Golofn 1 a Cholofn 2.

⁷ Mae copiâu o Femoranda Esboniadol y DU ynglŷn â'r UE a gyhoeddwyd cyn mis Ebrill 2012 wedi'u rhoi mewn archif ac nid ydynt ar gael ar-lein bellach. I gael copiâu a roddwyd mewn archif, cysylltwch â **Swyddfa'r Cabinet** gan roi cyfeirnod y ddeddfwriaeth, e.e. COM(2011)625

Mewn trafodaethau diweddar yng Nghyngor y Gweinidogion, galwodd Llywodraeth y DU am roi rhyddid i Aelod-wladwriaethau benderfynu a ydynt am weithredu diffiniad o ffermwr gweithredol yn eu tiriogaeth.

O ran y cynllun ffermwyr bach a'r cynllun ffermwyr ifanc, mae Llywodraeth y DU wedi dadlau y dylai'r cynlluniau hyn fod yn rhai gwirfoddol i'r Aelod-wladwriaethau. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gwrthwynebu'r cynigion i gael terfynau uchaf gorfodol cynyddol ar daliadau.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei bod wedi'i siomi â'r cynigion i gadw taliadau cysylltiedig ac mae wedi datgan y bydd yn ceisio cyfradd gyffredin isel o gymorth cysylltiedig ar draws yr Aelod-wladwriaethau.

O ran y Gyllideb Datblygu Gwledig, mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi galw am gynyddu dyraniad hanesyddol isel y DU o'r gyllideb hon.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch amlinelliad o'r cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf (2014-2020) ym mis Ionawr 2013⁸ ac ymgynghoriad ar y cynigion ynghylch taliadau uniongyrchol Colofn 1 ym mis Chwefror 2013⁹.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan o'r blaen ei bod yn gwrthwynebu toriadau cyllidebol i daliadau Colofn 1, ac y byddai am i gyllid Datblygu Gwledig gael ei ddyrannu'n decach.

⁸ Llywodraeth Cymru, **Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Y camau nesaf**, Ionawr 2013 [fel ar 16 Mai 2013]

⁹ Llywodraeth Cymru, **Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Taliadau uniongyrchol i ffermwyr: y camau nesaf**, Chwefror 2013 [fel ar 16 Mai 2013]

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am i'r cyfnod trosglwyddo o ran taliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd gael ei ymestyn i 10 mlynedd ar gyfer Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau, ac am sicrhau mai dim ond 10 y cant ar sail arwynebedd y mae'n rhaid iddynt ei dalu yn 2014. Yn ei hymgyngoriad ar daliadau uniongyrchol, mae wedi nodi cynigion i ddefnyddio gwahanol gyfraddau talu ar gyfer gwahanol fathau o dir ledled Cymru.

Mae wedi nodi ei bod yn cefnogi rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau benderfynu ar y flwyddyn gyfeirio o ran dyrannu hawliau newydd, a'i bod yn cefnogi rhoi blaenoriaeth i newydd-ddyfodiaid o ran cael mynediad at y Gronfa Genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r egwyddor o roi mwy o hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau weithredu'r gofynion gwyrdd, ond mae wedi gwrthwynebu taliadau dwbl o dan Golofn 1 a Cholofn 2 am yr un mesurau. Mae wedi amlinellu'r diwygiadau y mae am iddynt gael eu gwneud i'r gofynion gwyrdd arfaethedig.

Fel Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r egwyddor o ddarparu taliadau i ffermwyr actif yn unig, ond mae wedi dadlau y bydd gweinyddu'r prawf incwm yn broses gymhleth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r egwyddor o gael 'rhestr negyddol' o weithgareddau na fyddai'n gymwys i gael cymorth, ond nid 'rhestr negyddol' sy'n seiliedig ar fathau o hawlwr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am i'r cynllun ffermwyr bach a'r cynllun ffermwyr ifanc fod yn rhai gwirfoddol, ac mae wedi mynegi pryder y bydd y ffermwyr hynny sy'n dod yn rhan o gynllun ffermwyr bach wedi'u heithrio o ran trawsgydymffurfio. Mae wedi dadlau y gellid cynorthwyo ffermwyr ifanc yn well drwy ddefnyddio cronfeydd domestig neu gronfeydd datblygu gwledig.

O ran Datblygu Gwledig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ei blaenoriaethau a'i strategaeth arfaethedig ar gyfer y cynllun datblygu gwledig nesaf (2014-2020). Mae ymyriadau arfaethedig y cynllun nesaf yn cynnwys:

- Ystyried defnyddio offerynau ariannol newydd, fel benthyciadau, i gynorthwyo o ran buddsoddi ar ffermydd ac arallgyfeirio anamaethyddol;
- Buddsoddi mewn prosesu cynhyrchion, trosglwyddo gwybodaeth am ddulliau'r gadwyn gyflenwi;
- Ynni adnewyddadwy ar ffermydd ac yn y gymuned; a
- Chynllun coedwigaeth i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu coedwigoedd masnachol a phreifat yn gynaliadwy.

Cynnydd y goflen yn sefydliadau'r UE

Bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt ym Mrwsel.

Trafodaethau Tairochrog

Mae Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion wedi mabwysiadu eu safbwyntiau negodi eu hunain ar gynnigion y Comisiwn. Mae'r tri sefydliad, sef y Senedd, y Cyngor a'r Comisiwn, wedi dechrau trafodaethau tairochrog i ddod i gytundeb terfynol ar y rheoliadau. Hyd yma, cynhaliwyd 12 cyfarfod tairochrog rhwng y sefydliadau i drafod telerau'r cynigion, ac mae 20 o gyfarfodydd eraill i'w cynnal cyn diwedd Llywyddiaeth Iwerddon ym mis Mehefin 2013. Amlinellir isod grynoded o'r materion mwyaf cynhennus y bydd angen cytuno arnynt:

Dosbarthu taliadau uniongyrchol

Mae'r Senedd a'r Cyngor yn cefnogi'r syniad o drosglwyddo'n raddol o daliadau hanesyddol i daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd. Fodd bynnag, er bod y Senedd a'r Comisiwn o blaid cynnwys dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau'r broses drosglwyddo, mae'r Cyngor wedi cefnogi cynigion i ganiatáu i'r Aelod-wladwriaethau benderfynu ar eu hamserlen eu hunain.

Gwneud taliadau uniongyrchol yn fwy gwyrdd

Mae'r Cyngor a'r Senedd wedi cefnogi diwygiadau tebyg i'r tri gofyniad gwyrdd a gynigiwyd gan y Comisiwn yn wreiddiol. Fodd bynnag, er bod y Cyngor o'r farn y dylai ffermwyr mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n bodoli eisoes gael taliadau gwyrdd yn awtomatig, mae'r Senedd a'r Comisiwn wedi gwrthwynebu unrhyw ddiwygiad a allai arwain at dalu ddwywaith am yr un peth yng nghyswllt mesurau gwyrdd.

Ffermwyr Ifanc a'r Cynllun Ffermwyr Bach

Mae'r Senedd a'r Comisiwn o'r farn y dylai fod yn orfodol i'r Aelod-wladwriaethau ymgymryd â'r cynlluniau hyn, ond mae'r Cyngor am iddynt fod yn gynlluniau gwirfoddol.

Ffermwr Actif

Er bod y Cyngor a'r Senedd yn cytuno bod diffiniad arfaethedig y Comisiwn o 'ffermwr actif' yn rhy gymhleth, ac y dylid defnyddio rhyw fath o restr negyddol, mae anghytundeb o ran a ddylai fod yn orfodol i Aelod-wladwriaethau weithredu'r diffiniad hwn.

Ymyrryd yn y Farchnad

Mae'r Cyngor wedi cefnogi barn y Comisiwn y dylid, yn gyffredinol, gyfyngu dulliau o ymyrryd yn y farchnad i sectorau penodol, ac y dylai'r PAC ganolbwyntio mwy ar y farchnad. Mae'r Senedd wedi cefnogi diwygiadau a fyddai'n ehangu ac yn cryfhau cynigion y Comisiwn o ran ymyrryd yn y farchnad.

Datblygu gwledig

Mae'r prif faes cynhennus yn y rheoliad datblygu gwledig yn ymwneud ag Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol. Bwriedir i ddiffiniad yr Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol gael ei ddefnyddio yn lle diffiniad yr Ardal Lai Ffafirol a ddefnyddir o dan reoliadau presennol y PAC. Mae Senedd Ewrop wedi galw am ohirio'r broses o roi'r diffiniad newydd ar waith ond mae'r Cyngor yn cefnogi barn y Comisiwn y dylid ei fabwysiadu pan ddaw'r rheoliadau newydd i rym, ond byddai am iddo gael ei ddiwygio.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nia Seaton (Nia.Seaton@cymru.gov.uk)

Neu Gregg Jones (Gregg.Jones@cymru.gov.uk)